# Cofnodion

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020 |
| Amser: | 4.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, G Giles, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman |

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Nid oedd ymddiheuriadau.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3 **Cofnodion y cyfarfod diweddaf**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020 fel rhai cywir.

4 **Adroddiad Monitro Rheolaeth Trysorlys**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan roi gwybod i'r Cabinet am weithgareddau Rheoli Trysorlys am hanner cyntaf y flwyddyn hyd at 30 Medi 2020. Adroddiad oedd yn edrych yn ôl ydoedd, ac yn cadarnhau fod y Cyngor yn dal i ddilyn ei strategaeth o gynnal isafswm buddsoddiadau, yn hytrach na chymryd benthyciadau tymor-hir allan.

Dangosodd yr adroddiad, yn hanner cyntaf y flwyddyn, y bu gostyngiad mewn benthyca net o ddiwedd Mawrth o £153.8 miliwn i £121.1 miliwn. Y prif reswm oedd ad-dalu benthyciadau ychwanegol y Cyngor ar ddiwedd Mawrth i dalu am grantiau busnes ar ddechrau'r pandemig.

Talodd Llywodraeth Cymru hefyd y grant cynnal incwm yn hanner cyntaf y flwyddyn, ac arweiniodd hyn at lif arian positif. I symud i ail hanner y flwyddyn, rhagwelir y bydd lefel y buddsoddiadau yn cwympo i'r isafswm, a all arwain at fwy o fenthyca tua diwedd y flwyddyn ariannol.

O ran y buddsoddiadau, gyda'r hinsawdd economaidd presennol a'r ansicrwydd, y flaenoriaeth oedd diogelwch yn hytrach nag elw, ac yr oedd y buddsoddiadau yn rhai tymor-

byr ac yn bennaf gyda llywodraeth leol neu lywodraeth y DU, oedd yn cael eu hystyried yn ddiogel.

Bu'r adroddiad at y Pwyllgor Archwilio i'w nodi a rhoi sylwadau, ac y mae'r rhain wedi eu cynnwys yn yr adroddiad i'w hystyried.

Yn gyffredinol, cadarnhaodd yr adroddiad fod y terfynau a'r dangosyddion yn unol â'r strategaethau a gymeradwywyd.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi a gwneud unrhyw sylwadau cyn i'r adroddiad fynd at y Cyngor llawn i'w gymeradwyo.

**Penderfyniad:**

- Mae'r Cabinet wedi nodi ac am wneud sylwadau cadarnhaol i'r Cyngor am y gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad am y cyfnod hyd at 30 Medi 2020.
- Nododd y Cabinet sylwadau'r Pwyllgor Archwilio am yr adroddiad.

5 **Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol Chwarter 2**

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad i'r Cabinet am Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor am ddiwedd Chwarter dau (30 Medi 2020).

Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynnwyd yr adroddiad a nodi newidiadau i'r risgiau yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae Polisi Rheoli Risg y Cyngor a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r weinyddiaeth hon a'r swyddogion i nodi, rheoli a monitro yn effeithiol y risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyrraedd ei amcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2017-22) a chyflawni ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Byddai'r adroddiad risg Chwarter dau hefyd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor yn Ionawr 2021 i adolygu prosesau rheoli risg a threfniadau llywodraethiant y Cyngor.

Yn dilyn cyflwyno chwarter un y Gofrestr Risg Gorfforaethol, croesawodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yr adroddiad a chydnabod effaith pandemig Covid-19 ar gyflwyno gwasanaethau'r Cyngor.

Gofynnwyd i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor am i gamau lliniaru gael eu cynnwys yn y gofrestr ac yn adroddiad y chwarter hwn, a gwnaed hyn.

Yr oedd diweddariad yr adroddiad yn nodi 56 risg a gofnodwyd ar draws wyth maes gwasanaeth y Cyngor. Cafodd y risgiau mwyaf arwyddocaol (Risgiau Coch), i gyflwyno gwasanaethau'r Cyngor a chyrraedd ei Amcanion Corfforaethol eu hanfon i Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor.

Esboniodd yr Arweinydd yn fanylach y ffigyrau risgiau difrifol i ganolig ar ddiwedd chwarter dau, yn ogystal â'r risgiau a'r ansicrwydd posib oherwydd trafodaethau Brexit. Dywedodd yr Arweinydd fod gofyn i Aelodau'r Cabinet gytuno â chynnwys Adroddiad Risg Chwarter 2 a pharhau i fonitro cynnydd y camau a gymerwyd i leihau effaith y risgiau yn yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan aelodau'r Cabinet.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at Risg 5, clefyd marwolaeth yr ynn, yr effeithiau enbyd ar goed, a'r gwaith a wnaed ar hyd Ffordd Caerllion. Yr oedd trafodaethau priodol yn cael eu cynnwys gyda LlC, a byddai'r Cyngor yn monitro ardaloedd eraill wrth i amser fynd heibio.

Llongyfarchodd yr Arweinydd y tîm am eu gwaith rhagorol yn cwympo'r coed ar hyd Ffordd Caerllion.

**Penderfyniad:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys diweddariad y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

6 **Archwilio Cymru - Archwiliad o Asesiad Cyngor Dinas Casnewydd o berfformiad 2019-20 (Tystysgrif Cydymffurfiaeth 2)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad gan ddweud mai dyma'r ail Dystysgrif Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru yn ôl gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilio Cymru oedd Archwilwyr Allanol y Cyngor, ac y mae ganddynt ddyletswydd i sicrhau fod cyrff cyhoeddus fel Cyngor Casnewydd yn meddu ar y trefniadau angenrheidiol i sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau i gyflwyno gwasanaethau'r Cyngor.

Fel rhan o'r Mesur Llywodraeth Leol, yr oedd gofyn i Gyngor Casnewydd gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol flaenorol (2019/20) yn 31 Hydref.

I gwrdd â'r gofyniad hwn, cadarnhaodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Cyngor am 2019/20 yn eu cyfarfod ym mis Hydref, a'i gyhoeddi wedyn ar wefan y Cyngor.

Cyhoeddodd Archwiliwr Cyffredinol Cymru'r ail Dystysgrif Cydymffurfio yn cydnabod fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) y Mesur.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r adolygiadau archwilio oedd i'w cwblhau yn 2019/20 a 2020/21 ar wasanaethau a gyflwynwyd gan Gyngor Casnewydd a hefyd ystyried yr adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau sy'n cael eu cyflwyno gan gynghorau ledled Cymru.

Cydnabu'r Cabinet y gwaith a wneir gan Archwilio Cymru i roi'r sicrwydd angenrheidiol, a lle bo angen, argymhellion i wasanaethau wella yn barhaus.

Cynigiodd yr Arweinydd fod y Cabinet yn derbyn y casgliad yn ail Dystysgrif Cydymffurfio yr Archwiliwr Cyffredinol.

Gwahoddodd yr Arweinydd sylwadau gan aelodau'r Cabinet.

Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r staff, gan ddweud ei fod yn deyrnged i'w gwaith caled eu bod yn dal i amddiffyn trigolion Casnewydd.

**Penderfyniad:**
Nododd y Cabinet ddeilliant cadarnhaol y Dystysgrif Cydymffurfio o ran cwrdd â'i ddyletswydd statudol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

7 **Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol**

Nid oedd yr adroddiad yn cyd-fynd ag amserlen swyddogaethau'r Cabinet yn 2019/20 oherwydd y mesurau Covid-19 a osodwyd ym Mawrth 2020 pan oed di fod i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

Daliwyd i wneud cynnydd gyda phrosesau Diogelu yn y Cyngor trwy gydol y cyfnod clo, a chwblhawyd y gwaith a gynlluniwyd. Er enghraifft, mae'r pencampwyr diogelu yn awr yn eu lle yn y Cyngor ac yn cwrdd yn rhithiol ar hyn o bryd.

Newidiadau deddfwriaethol eraill fyddai weddi bod yn her i'r cyngor a'r gweithlu oedd newid Camau Diogelu Amddifadu o Ryddid i gamau Diogelu gwarchod Rhyddid oedd i fod i'w gweithredu ym mis Hydref 2020 ac a gafodd eu gohirio tan fis Mawrth 2022. Byddai hyn yn galluogi'r consortiwm rhanbarthol i gynllunio, a hyfforddi'r gweithlu yn barod at y newidiadau mewn arfer.

Derbyniodd y Pwyllgor Craffu yr Adroddiad Blynyddol llawn ar Ddiogelu Corfforaethol ar 30 Hydref 2020, gyda'r caveat fod cynnydd yn cael ei wneud yn y misoedd wedyn, a'r adroddiad hwn sydd yn awr yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

Dywedwyd wrth y pwyllgor, er mwyn sicrhau a gwella atebolrwydd am drefniadau diogelu corfforaethol ledled Cyngor Dinas Casnewydd, y byddai'r holl adroddiadau yn y dyfodol i'r pwyllgor craffu yn cynnwys y wybodaeth isod:

Cyfres ledled y cyngor o berfformiad a gwybodaeth yn ôl argymhellion SAC: cyflwyno Mesuriadau Perfformiad Allweddol y llywodraeth yn benodol ar gyfer diogelu, dangosyddion/mesuriadau lleol gan dimau'r Uned Ddiogelu, a chyflwyno unrhyw risgiau/heriau a nodwyd sydd yn debygol o ddod i ran yr awdurdod, a'r camau i liniaru'r risgiau hyn.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn dal yn aelod gweithredol o Fwrdd Diogelu Gwent, sef cyfuniad o ddau fwrdd rhanbarthol blaenorol: Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru (SEWSCB) a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent (GWASB). Mae Casnewydd yn dal i gynnal y tîm rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ac yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (VAWDASVB).

Amlygwyd hefyd y cynigion ar gyfer 2019/20 ac ystyriwyd y dewisiadau, sef:

1. Y Cyngor i synied am hyfforddiant diogelu fel cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yn unig.

2. Y Cyngor i gydnabod pwysigrwydd cael gweithlu gwybodus a chyfrifol sy'n ymwybodol o'r gofynion deddfwriaethol o ran diogelu dinasyddion wrth gynrychioli'r cyngor.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod gan bawb gyfrifoldeb diogelu, a darllenodd Ddatganiad y Cyngor, oedd wedi ei anfon at yr holl staff, yn amlygu eu dyletswydd o ofal.

Yr oedd yr Aelod Cabinet yn falch o hysbysu'r Cabinet, oherwydd y cynllun peilot llwyddiannus yng Nghasnewydd, y byddai'r model hyfforddi hwn yn cael ei weithredu ledled Cymru.

**Penderfyniad:**
Adolygodd y Cabinet gynnydd y gwaith blaenoriaeth allweddol o ran trefniadau diogelu corfforaethol a gwaith diogelu timau penodol fel y'u nodwyd yn 2019/20.

8 **Adroddiad Blynddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynodd yr Arweinydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl i roi'r adroddiad.

Nodwyd fod 2019/20 yn flwyddyn arall drom, a nodweddwyd gan gynnal ansawdd a safonau gwasanaeth, a dechrau pandemig Coronafirws.

I gydnabod yr angen i ymateb i’r pandemig, ataliodd Llywodraeth Cymru y gofyniad i adrodd am ffigyrau diwedd blwyddyn, felly nid oedd yr holl ddata ar gael. Cafodd fframwaith perfformiad oedd i fod yn ei le o Ebrill 2020 ymlaen hefyd ei ohirio, ond byddai’r mesurau yn eu lle erbyn Ebrill 2021. Yn ystod 2021/22 bydd y Cyngor yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i brosesau cofnodi ac adrodd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu’n llawn.

Nodweddwyd y flwyddyn gan gryn gynnydd yn y galw am wasanaethau plant ac oedolion. Yr oedd niferoedd asesiadau i fyny o 2,245. Yr oedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn parhau i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau ymyriad cynnar ac ataliol, a’r gwaith arferol.

Mae’r amcanion lles yn gwau trwy holl waith y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn gysylltiedig â  Chynllun Corfforaethol y Cyngor, sef:

- Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd am waith.
- Galluogi pobl i fod yn iach, annibynnol a gwydn.
- Adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol i Chris Humphrey am weithredu fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Pobl, ac aeth ymlaen i roi’r ffigyrau a ganlyn sy’n dangos y bu cynnydd sylweddol pellach yn 2019/20 yn y galw am wasanaethau:

- **4,038 asesiad oedolion** - Nifer wedi cynyddu o **891** (3147 yn 2018/19)
- **5,944 asesiad plant -** Nifer wedi cynyddu o **919** (5025 yn 2018/19)
- **188 asesiad gofalwyr** - Nifer wedi cynyddu o **135** (71 yn 2018/19)
- **3,000 cyfeiriad am gefnogaeth tai –** Nifer wedi cynyddu o **300** **(**2,700 yn 2018/19)

Gwnaed ymdrechion parhaus yn ystod y flwyddyn i leihau costau, nodi arbedion a gwella gweithio integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Cafodd gwasanaethau eu haddasu i bandemig Coronafirws er mwyn sicrhau cysondeb, ond yr ydym yn dal yng nghanol argyfwng iechyd cyhoeddus ac yn ansicr am effeithiau tymor canol i dymor hir y pandemig.

<u>Sylwadau’r Cabinet:</u>

Dywedodd y Cynghorydd Harvey fod y berthynas rhwng y staff a’r bobl ifanc yn un gynnes, a bod plentyn mewn gofal wedi diolch i’r tîm am eu gofal rhagorol. Yr oedd cam-fanteisio ar blant yn digwydd yng Nghasnewydd a soniodd fod staff Cyngor Dinas Casnewydd ar lefel uchel iawn pan ddaw’n fater o ofal proffesiynol i blant Casnewydd.

Diolchodd yr Arweinydd i’r Aelod Cabinet am ei ymroddiad i’r gwasanaethau, yn ogystal â diolch i Chris Humphrey, Cyfarwyddwr Interim Gwasanaethau Cymdeithasol, am ei gwaith caled cyson. Soniodd yr Arweinydd fodd bynnag fod y staff dan bwysau, a bod eu hagwedd o ganolbwyntio ar atebion yn cael ei werthfawrogi’n arw, yn enwedig dros y flwyddyn a aeth heibio, a chynigiodd ei diolch diffuant.

**Penderfyniad:**
Nododd y Cabinet Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20.

9 **Cymeradwyo Argymhelliad RR DA ar gyfer Ymgynghori**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i’r Cabinet a oedd eisoes yn ymwybodol fod y Cyngor wedi cadarnhau Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl ym mis Hydref, oedd wedi caniatáu i ni adolygu ein CDLl.  Creu Adroddiad Arolygiad a Chytundeb Cyflwyno oedd y camau nesaf tuag at gyflwyno CDLl newydd.

Yr oedd yr Adroddiad Arolygiad a Chytundeb Cyflwyno ar hyn o bryd ar ffurf drafft, a gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r dogfennau ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn cychwyn ym mis Ionawr. Byddid yn adrodd yn ôl ar sylwadau a newidiadau arfaethedig i'r Cabinet ym Mawrth 2021, ac os byd hyn yn foddhaol, bydd yn mynd gerbron y Cyngor llawn yn Ebrill 2021. Mae cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn golygu y bydd y dogfennau yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru, ac wedi iddynt hwy eu derbyn, bydd y broses o adolygu'r CDLl yn dechrau yn gyfreithiol.

Mae'r drafft o Adroddiad Arolygiad yn gosod allan y newidiadau mewn polisïau a deddfwriaeth genedlaethol ers mabwysiadu'r CDLl yn Ionawr 2015, yn fwyaf amlwg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Ebrill 2015) a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol oedd ar y gweill, dan y teitl 'Cymru'r Dyfodol'. Yr oedd y rhain yn newidiadau polisi pwysig, yn enwedig nodi Casnewydd fel ardal o dwf cenedlaethol.

Yr oedd yr adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau'r pum Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, yn asesu'r CDLl presennol ac yn nodi lle bydd angen newid, er enghraifft:

- Bydd angen safleoedd datblygu newydd
- Efallai y bydd angen adolygu polisi manwerthu i adlewyrchu'r newid yn narlun manwerthu
- Efallai y bydd angen cryfhau'r polisïau ar ynni adnewyddol, newid hinsawdd ac ansawdd aer wrth i ni symud tuag at safbwynt mwy cynaliadwy a charbon niwtral.

Byddai ymgynghori cyhoeddus ar y drafft o Adroddiad Arolygiad yn help i nodi barn trigolion a rhanddeiliaid am y CDLl a pha bolisïau ddylai gael eu hadolygu.

Pwrpas yr adroddiad oedd cytuno i lansio'r ymgynghoriad ar yr adroddiad arolygiad, ac yr oedd yr Arweinydd yn falch o argymell hyn i'r Cabinet.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy i siarad.

Yr oedd yr Aelod Cabinet yn cefnogi symud i gyfnod nesaf yr ymgynghoriad cyhoeddus, oedd yn hanfodol er mwyn bwydo i mewn i ddatblygiad y cynllun. Er oed yn edrych ymlaen at glywed adborth y cyhoedd yng nghyfarfod y Cabinet ym Mawrth 2021.

**Penderfyniad:**
Cymeradwyodd y Cabinet y drafft o adolygiad ar gyfer ymgynghori cyhoeddus.

10 **Ymgynghoriad ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet. Strwythur llywodraeth leol ar hyn o bryd yng Nghymru yw 22 cyngor sir a bwrdeistref sirol ("prif gynghorau"), ac fe'u sefydlwyd yn 1996 trwy Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o adroddiadau, comisiynu ac ymgynghori ar bapurau gwyn, gyda'r nod o ddiwygio strwythur llywodraeth leol, cryfhau atebolrwydd democrataidd a chael mwy o amrywiaeth o ran cynrychiolaeth.

Yn 2019 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Bwriad y Bil oedd diwygio'r fframwaith deddfwriaethol o ran trefniadau etholiadau llywodraeth leol,

democratiaeth, perfformiad a llywodraethiant. Rhagwelir y byd dy Bil yn derbyn y Cydsyniad Brenhinol yn gynnar yn 2021 mewn pryd ar gyfer etholiadau lleol 2022.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Bil ac yn cynnig ymateb i'r ymgynghoriad am sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol.

**Trosolwg o'r Bil**
Y mae hwn yn ddarn helaeth o ddeddfwriaeth, felly amlygwyd crynodeb o rai o'r pwyntiau allweddol:

**Rhan 1 Etholiadau**
**Rhan 2 Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**
**Rhan 3 – Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol**
**Rhan 4 – Prif Weithredwyr, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Llywodraeth Leol**

**Rhan 5 – Gweithio Cydweithredol gan Brif Gynghorau:**
Yr oedd hyn yn canoli ar greu cydbwyllgorau corfforaethol (CBC) i ddau neu fwy o brif gynghorau gyflawni swyddogaethau penodol.
Gellir gweld y CBC hyn fel esblygiad o'r trefniadau rhanbarthol presennol megis y Fargen Ddinesig, consortia gwella ysgolion a threfniadau cynllunio a thrafnidiaeth rhanbarthol.

Byddai CBC yn ffurf newydd ar gorff llywodraethiant, sef arweinyddiaeth ddemocratiaeth awdurdodau lleol yn ei ardal, yn hytrach na phwyllgorau traddodiadol.

**Rhan 6 – Perfformiad a Llywodraethiant Prif Gynghorau:**
Bydd yr adran hon yn destun adroddiad pellach i'r Cabinet.

**Rhan 7 ymlaen:**
Mae'r Bil hefyd yn rhoi i brif gynghorau gyfle i gyfuno yn wirfoddol.

O ran cyllid llywodraeth leol, cyflynodd y Bil fesurau newydd am ardrethi annomestig.

Yr oedd hefyd nifer o ddarpariaethau amrywiol, yn cynnwys rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, ac uno a dad-gyfuno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Effaith ar Gyngor Dinas Casnewydd ac ymateb i'r ymgynghoriad**
Byddai cydweithwyr yn ymwybodol fod seminar i'r holl aelodau wedi ei chynnal ac y mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau.

Cafodd y rhain eu hystyried yn ofalus yn y drafft o ymateb i'r ymgynghoriad, ac y mae ar gael fel Atodiad i'r adroddiad. Y pwyntiau allweddol oedd:

- Yr oedd y bwriad i roi pŵer cymhwysedd cyffredinol i lywodraeth leol o gymorth, er y gall y defnydd ohono fod yn gyfyngedig yn ymarferol.
- Croesawodd yr Aelodau y bwriad i ymestyn yr etholfraint i rai 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor, sy'n adlewyrchu egwyddor ymwneud. Yr oedd hyn hefyd yn unol â'n Haddewid i Bobl Ifanc, er y gellid cydnabod y gall y cynigion i newid y drefn bleidleisio fod yn ddryslyd i'r etholwyr.
- Yr oedd gan y Cyngor record eisoes o gydweithio yn lleol a rhanbarthol. Yr ydym wedi ffurfio partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol gydag awdurdodau cyfagos a phartneriaid y trydydd sector, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.
- Yr oedd yr Aelodau, serch hynny, wedi lleisio pryderon am ddiffyg tryloywder ac atebolrwydd y CBC arfaethedig, a'r effaith yn sgil hynny ar adnoddau, sgiliau ac arbenigedd llywodraeth leol.
- Yr oedd yr Aelodau hefyd yn pryderu gyda chyfiawnhad na all y symudiad at gyrff mwy rhanbarthol gynrychioli barn cymunedau lleol, ac y mae hyn wedi ei adlewyrchu yn yr ymateb a atodir.

Yr oedd yr adroddiad yn cydnabod fod y newidiadau arfaethedig yn mynd rhagddynt, ond teimlwyd y dylid codi nifer o bwyntiau yn yr ymgynghoriad am sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol. Yr oedd hyn yn cynnwys amodau a rheoli'r gweithlu, yr effaith ar gyllid a sgiliau llywodraeth leol, ac yn bwysicaf oll, fod llais ein cymunedau yn cael ei adlewyrchu mewn penderfyniadau trwy ymwneud ag aelodau'r Cyngor.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio i ddweud gair.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Cyngor Dinas Casnewydd yn wastad wedi bod yn hyblyg ac yn agored i unrhyw newidiadau a buasent yn wastad yn gwneud hyn. Byddai gan yr etholwyr, fodd bynnag, bryderon, a theimlai'r Aelod Cabinet y dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar lefel leol. Byddai CBC yn symud ymaith oddi wrth ymwneud cymunedau lleol a'r materion sydd angen ymdrin â hwy o lywodraeth ganolog i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau â'r hyn a roddir i ni, ond pwysleisiwyd fod angen i benderfyniadau gael eu gwneud yn agos at y bobl.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Prif Weithredwr i ddweud gair.

Adleisiodd y Prif Weithredwr sylwadau'r Arweinydd fod hon yn ddogfen bwysig i lywodraeth leol a bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cywir o adborth yr aelodau yn y seminar, ac fel y dywedodd yr Aelod Cabinet, mae'r Bil yn mynd trwy'r Senedd a bydd yn dal i wneud. Yr oedd yn bwysig felly gweithio gyda chynghorwyr fel, pa bynnag fodel fyddai'n cael ei fabwysiadu o ran y CBC a'i ddwyn i'r swyddogion, byddai'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r aelodau er mwyn sicrhau y byddant yn cael eu trafod.

**Penderfyniad:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a chytuno ar gyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau o 4 Ionawr 2021.

11 **Adferiad COVID-19 - Diweddariad**

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar gynnydd Cyngor Casnewydd a'u partneriaid i gefnogi'r ddinas i gydymffurfio â'r cyfyngiadau angenrheidiol a pharhau i gefnogi cymunedau Casnewydd fel rhan o Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Tachwedd, gwelodd y Cyngor gryn gamau gyda chyflwyno'r brechiad ledled y genedl, ond yr oedd Covid-19 yn dal i effeithio ar lawer o deuluoedd, cymunedau a busnesau.

Bydd Covid-19 yn parhau i fod yn amlwg ledled cymunedau Casnewydd dros y gaeaf.

- Mewn ymateb, rhoes Llywodraeth Cymru fwy o gyfyngiadau ar waith yn ystod mis Rhagfyr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi cadw mesurau pellter cymdeithasol ar gyfer aelwydydd, a mwy o gyfyngiadau ar sector adloniant dan do a lletygarwch y ddinas.
- Yr ydym yn deall rhwystredigaethau a phryderon y sectorau adloniant a lletygarwch gyda'r mesurau hyn ar adeg sydd fel arfer y prysuraf yn y flwyddyn. Ond rhaid i iechyd a lles y gymuned ehangach a'r mwyaf bregus fod ar flaen ein meddyliau.
- Anogodd Arweinydd Cyngor Casnewydd yn gryf yr holl fusnesau yr effeithiwyd arnynt i geisio'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol ac ymgeisio am y grantiau a gynigir gan Lywodraeth Cymru.
- Adleisiodd y Cyngor ddatganiadau Llywodraeth Cymru a gwyddonwyr blaenllaw i aelwydydd barhau i gadw pellter cymdeithasol yn y cyfnod hwn, ac arfer synnwyr cyffredin i ddiogelu aelodau mwyaf bregus eu teuluoedd.
- Bydd y llwybr at adferiad yn un anodd, ac ni ddylem anghofio'r sawl a drawyd gan y clefyd a'r mesurau a gymerwyd i gyfyngu ar ymlediad ar draws cymunedau.

- Tynnodd Covid-19 sylw at yr anghydraddoldeb sy'n bodoli mewn cymdeithas, a'r gwaith y mae'n rhaid i'r Cyngor a'n partneriaid wneud er mwyn i Gasnewydd fod yn lle teg i bawb fyw, gweithio a ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.
- Collodd llawer o bobl eu swyddi, effeithiwyd ar addysg plant a phobl ifanc, mae busnesau wedi cau a dioddefodd cymunedau ymylol waethaf o Covid-19.

Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad, yr oedd swyddogion y Cyngor, mudiadau cefnogol a gwasanaethau cyhoeddus wedi parhau i gyflawni ledled Casnewydd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr heriau a wynebir gan wasanaethau'r Cyngor, ond hefyd y llwyddiannau ar waethaf y problemau.

- Mae llawer o ysgolion ar hyd a lled Casnewydd yn dal i adrodd am achosion positif ar draws gwahanol grwpiau blwyddyn. Bu'r ysgolion yn ymateb trwy sicrhau bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu dilyn a thrwy ofalu fod pobl ifanc, plant a'u teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i barhau i ddysgu gartref.
- Yr oedd y cynllun talebau archfarchnadoedd wedi parhau i gefnogi pobl ifanc a phlant ers hanner tymor mis Hydref, a bydd yn cynnal teuluoedd dros y Nadolig.
- Yr oedd Cyngor Casnewydd yn cwblhau bid am gynllun Kick-start yr AGPh i helpu i wella cyflogadwyedd  a siawns am waith i bobl yn y  grŵp oedran 16-24 sydd â risg.
- Mae gwaith yn dal i gael ei wneud i gefnogi'r gymuned BAME gan weithio mewn partneriaeth ag EYST i ddatblygu sgiliau llythrennedd digidol.
- Cymeradwywyd cyfanswm o 25 cais grant am gronfa Trawsnewid Trefi.
- Llwyddodd y Cyngor i sicrhau dros £1miliwn o arian ychwanegol ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghasnewydd a bydd yn cefnogi datblygu unedau ar ddau ddatblygiad gan LCC.
- Yr oedd meysydd parcio CDC am ddim i ymwelwyr a thrigolion Casnewydd i gefnogi siopau canol y ddinas a dwyn siopwyr i mewn.
- Mae Cyngor Dinas Casnewydd a'u partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod yn rhan o Siarter Teithio Iach Gwent. Y nod yw hyrwyddo teithio llesol, defnyddio cludiant cyhoeddus a gweithio hyblyg i staff. Byddai hyn oll yn helpu'r Cyngor a dinas Casnewydd i gyrraedd y nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.
- Estynnwyd cefnogaeth tai i helpu pobl ddigartref i symud i lety dros dro.
- Gweithiodd y Cyngor yn agos gydag elusennau a grwpiau nid-am-elw i gefnogi'r digartref a'i mewn perygl o golli eu cartrefi i ddod o hyd i dai tymor-hir a chefnogaeth.
- Ers Noson Calan Gaeaf, a gwaith partneriaeth y Cyngor gyda menter Op Bang, gwelwyd bod hyn yn llwyddiant, gan gymryd agwedd dim-goddef.
- Estynnwyd gwaith canfod ac ymwneud ar gyflwyno gwasanaethau'r Cyngor i arolygon ar Wi-Fi Bysus ac yr oedd rhaglen Cyllideb Gyfranogol ar waith fel y gallai grwpiau lleol gyrchu arian i gefnogi mentrau lleol.

Dywedodd yr Arweinydd fod gan bawb gyfrifoldeb i gadw yn ddiogel rhag Covid, ac i Brofi, Olrhain ac Amddiffyn. Diolchodd i'r holl staff, partneriaid, elusennau, mudiadau a chynghorwyr am gefnogi cymunedau a gwasanaethau trwy gydol 2020 a fu mor anodd. Bydd diweddariad pellach am gynnydd y Cyngor yn cael ei ddarparu y mis nesaf.

Gwahoddodd yr Arweinydd Aelodau'r Cabinet i roi eu sylwadau.

- Yr oedd y Cabinet yn unfarn eu diolch i'r staff am eu gwaith caled ar yr adeg anodd hon, ac anogwyd aelodau'r cyhoedd i aros gartref a manteisio ar y system Brofi, Olrhain ac Amddiffyn.
- Yr oedd brechlyn ar y gorwel, serch hynny: Cymru ar Haen 4, a dymunwyd i bawb gael Nadolig diogel a llawen.
- Yr oedd yr effaith gymdeithasol-economaidd yn fawr, a diolchwyd i'r gwirfoddolwyr yn y banciau bwyd am weithio'n galed i ofalu na fyddai teuluoedd yn newynu; mae modd cael parseli bwyd am ddim o'r hwb, trwy gysylltu â Chanolfan Gyswllt y Ddinas.

- Yr oedd pryder mawr am gam-wybodaeth ynghylch y brechlyn, ac anogwyd y trigolion i gael eu gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Diolchwyd i'r staff hefyd am barhau i gefnogi pobl ifanc fregus, darparu TG, ac ymdrin â sgiliau i helpu pobl ifanc 16-25 oed i ddod o hyd i waith.

Adleisiodd yr Arweinydd sylwadau'r Cabinet ac ategu y dylid cael gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy , gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd. Byddai effaith hefyd ar ddarpariaeth gwasanaeth oherwydd bod staff yn hunan-ynysu neu eu hunain yn dioddef o Covid, felly diolchodd yr Arweinydd i'r trigolion am eu hamynedd.

Neges allweddol yr Arweinydd oedd y dylai trigolion y cysylltodd y gwasanaeth Profi, Olrhain ac Amddiffyn â hwy ddilyn y camau a nodwyd er mwyn arbed bywydau.

**Penderfyniad:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a chytuno ar gyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau o 4 Ionawr 2021.

12 **Adroddiad Diweddaru Brexit**

Adroddodd yr Arweinydd i'r Cabinet ar statws cyfredol y trafodaethau masnach rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd, a pharatoadau Cyngor Casnewydd am y trefniadau masnach wedi 31 Rhagfyr.

Ers adroddiad diwethaf y Cabinet ym mis Tachwedd, yr oedd Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn dal i drafod. Yr oedd llawer o ganlyniadau'r trafodaethau hyn allan o ddwylo Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Cynllun Gweithredu 'Diwedd Trosi' oedd yn gosod allan feysydd blaenoriaeth i baratoi am 31 Rhagfyr a thu hwnt.

Yn ychwanegol at y trafodaethau masnach, byddai rheolau mewnfudo newydd yn cael effaith ar drigolion sy'n byw neu'n dymuno byw/gweithio yn y DU.

Yr oedd dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru a Chasnewydd (ac a oedd eisoes yn byw yn y DU cyn 31 Rhagfyr) hefyd yn cael eu hannog i wneud cais i Gynllun Statws Sefydlu yr UE cyn y terfyn amser o 30 Mehefin, ac yr oedd yr Arweinydd eisiau sicrhau dinasyddion yr UE fod croeso iddynt fyw a gweithio yng Nghymru.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Drwyddedu a Rheoleiddio i ddweud gair.

Cytunodd yr Aelod Cabinet fod hwn yn amser anodd i flaengynllunio gan na chafwyd unrhyw gytundeb hyd yma. Yr oedd y swyddogion yn y gwasanaethau rheoleiddio ac amgylchedd yn aros am ganllawiau ar y Rheoliadau newydd wedi 31 Rhagfyr. Bydd angen hyfforddiant am y rhain, a'r hyn oedd yn gwneud pethau'n waeth oedd fod y gwasanaethau rheoleiddio hefyd yn gweithio ar y gwasanaethau Profi ac Olrhain, ac yr oedd eu hadnoddau dan straen fel yr oedd hi.

I gloi, gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet dderbyn cynnwys yr adroddiad a derbyn diweddariadau rheolaidd wrth i bethau fynd rhagddynt mewn cyfnod trosiannol o ansicrwydd dybryd.

**Penderfyniad:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nodi paratoadau'r Cyngor ar gyfer Brexit.

13 **Hamdden a Dysgu Canol y Ddinas**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i geisio caniatâd i ymgynghori ar gynllun am gyfleuster lles a hamdden newydd yng nghanol y ddinas. Yr oedd yr Arweinydd yn llawn cyffro am gyflwyno'r adroddiad hwn ar gam nesaf cynlluniau uchelgeisiol y Cyngor ar gyfer canol y ddinas, sydd yn rhoi hamdden a dysgu wrth galon y ddinas.

Yr oedd Cynllun Meistr canol y ddinas a fabwysiadwyd yn Ionawr 2019 yn nodi mannau allweddol yn y ddinas fel lleoliadau blaenoriaeth ar gyfer adfywio, wedi eu cysylltu trwy ddefnydd cyffredin a sbardunau economaidd. Mae adfywio Ffordd yr Wysg yn hanfodol i graidd y ddinas.

Wrth galon y cynigion adfywio mae datblygu Chwarter Gwybodaeth Casnewydd, fyddai'n adleoli'r ddarpariaeth addysg bellach i ganol y ddinas, yn agos at y ddarpariaeth addysg uwch sydd yno eisoes. Yr oedd gwaith datblygu cynnar yn cael ei wneud gyda Choleg Gwent i symud eu campws o Heol Nash i ganol y ddinas, gan greu gwell cynnig dysgu yn ogystal â dwyn mwy o bobl i ganol y ddinas.

Yr oedd adeilad presennol Canolfan Casnewydd, a godwyd dros 35 mlynedd yn ôl, yn dioddef o amrywiaeth o broblemau strwythurol a byddai angen buddsoddiad mawr i'w ddwyn i fyny i safonau modern. Wedi i'r ganolfan gau oherwydd cyfnod clo Covid ac i'r pwll gael ei archwilio, gwelwyd fod angen buddsoddiad o hyd at £2.5 miliwn cyn i ardal y pwll gael ei ail-agor i'r cyhoedd. Wedi edrych yn fanylach ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd, amcangyfrifwyd y byddai angen tua £9.1miliwn yn y tymor canol i gynnal y safle i fyny i safonau gweithredu. Nid oedd adeilad presennol Canolfan Casnewydd yn effeithlon nac yn gynaliadwy, ac yr oedd newidiadau mewn galw dros y degawdau yn golygu na allai bellach gystadlu â chyfleusterau modern.

Y cynnig felly oedd codi cyfleuster lles a hamdden newydd fyddai'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn ynni-effeithlon ar safle tir llwyd yn edrych dros Afon Wysg, gerllaw'r ganolfan bresennol. Byddai'r tir lle saif Canolfan Casnewydd yn awr yn cael ei ryddhau i hwyluso adleoli campws addysg bellach Coleg Gwent i ganol y ddinas. Fel rhan o'r cynigion am gyfleuster lles a hamdden newydd, byddid yn croesawu barn trigolion a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y byddai'r datblygiad yn rhoi cynllun uchelgeisiol, addas at y diben, ac a oedd yn adlewyrchu anghenion ein.

Cost gwella Canolfan Casnewydd oedd £2.5M am do'r pwll nofio, gyda £9.1M o waith cynnal a chadw ehangach ei angen dros y tymor canol. Yr oedd dau ddewis i'w hystyried:

- Dewis 1 – Pwll mwy, ond cyfleusterau chwaraeon llai
- Dewis 2 - Pwll llai, ond neuadd amlbwrpas

Yr oedd y naill a'r llall yn cynnig pwll nofio modern, ystafelloedd ffitrwydd, ystafelloedd newid i'r teulu, gardd do a chaffi, a byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn rhoi:
- BREAM rhagorol gyda chysylltiadau teithio lleso
- Coleg Gwent i gau Nash a'i ryddhau ar gyfer tai. Ni fyddai unrhyw darfu ar ddysgu.
- 2,000 o fyfyrwyr ar y safle newydd
- Cost £19.7M
- Cyllidwyr trwy £8.2M o arbedion gweithredol, £7M TRI, £4.5M benthyca cyfalaf CDC

Bydd y cynigion yn dod â mwy o bobl i ganol y ddinas ac yn helpu i gefnogi busnesau manwerthu a lletygarwch wrth iddynt geisio adfer o effaith Covid.

Er y byddai'r prosiect yn costio £20M, byddai cyfran fawr o hyn yn dod o arbedion effeithlonrwydd o redeg cyfleuster modern fyddai'n denu mwy o bobl. Yr oedd y cyngor hefyd yn ceisio buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru trwy eu Cronfa Adfywio a Buddsoddi wedi ei Dargedu.

Bu'r 9 mis diwethaf yn hynod heriol, ond trwy gydol y pandemig, nid ydym wedi rhoi'r gorau i weithio ar gynlluniau i wella'r ddinas a bywydau ein trigolion, ac yn enwedig cefnogi canol ein dinas i ddychwelyd yn gryfach.

Datblygwyd dau ddewis bras, ond yr oedd y cyngor eisiau clywed barn trigolion Casnewydd er mwyn deall beth oeddent hwy eisiau yn eu cyfleuster newydd. Yr oedd yr Arweinydd felly yn ceisio cymeradwyaeth y cabinet i ymgynghori ar y cynlluniau hyn.

Gwahoddodd yr Arweinydd the Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant i siarad.

Yr oedd yr Aelod Cabinet yn edrych ymlaen at y cynigion yn yr adroddiad, ac yn tybio ei bod yn hen bryd eu cael. Byddai'r ganolfan newydd yn addas at y dyfodol, ac yn rhoi cyfleusterau modern gwych i fyfyrwyr a theuluoedd. Anogodd yr Aelod Cabinet y trigolion i fynd ar-lein a rhoi eu hadborth am yr ymgynghoriad.

Gwahoddodd yr Arweinydd Aelodau'r Cabinet i roi eu sylwadau.

- Yr oedd y Cabinet yn unfarn eu cefnogaeth i'r ymgynghoriad cyhoeddus gychwyn ar ddatblygu cyfleuster hamdden newydd yng nghanol y ddinas.
- Yr oedd y Cabinet yn edrych ymlaen at glywed gan drigolion Casnewydd am y datblygiad newydd fyddai o fudd enfawr i deuluoedd a myfyrwyr.
- Byddai'r cynnig yn dwyn mwy o bobl a busnesau a chysylltiadau i Goleg Gwent yng Nghasnewydd yn ogystal â darparu cyfleuster lles.
- Adlewyrchodd y Cabinet ar y defnydd o Ganolfan Casnewydd dros y 35 mlynedd a aeth heibio, gan deimlo bod hwn yn gyfle delfrydol i gynnal defnydd cynaliadwy o gyfleusterau mewn adeilad newydd.
- Gyda'r cynnydd mewn poblogaeth ac aelwydydd, yr oedd y datblygiad arfaethedig i'w groesawu.
- Byddai'r adeilad newydd yn hygyrch ac yn cyfrannu at les a chydraddoldeb y trigolion, yn ogystal â bod yn adeilad gwyrdd a chynaliadwy.
- Yr oedd y datblygiad i'w groesawu i Gasnewydd, ac yn newyddion gwych dan yr amgylchiadau.
- Byddai moderneiddio canol y ddinas a'r cyfleusterau i fyfyrwyr yn rhagorol, ac yr oedd ffigyrau derbyniadau i'r brifysgol wedi gwella, oedd yn rheswm cadarnhaol arall dros gael yr adeilad.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Prif Weithredwr i siarad.

Adleisiodd y Prif Weithredwr y sylwadau, yn enwedig y rhai am addysg a Choleg Gwent fel partner allweddol. Yr oedd deialog yn cael ei gynnal gyda Choleg Gwent a Phrifysgol De Cymru i gael dau gyfleuster ar yr un lleoliad yng nghanol y ddinas. Bu'n flwyddyn anodd, ac yr ydym yn gweithio gyda Friars Walk a'r Ardal Gwella Busnes i weld sut i wella canol y ddinas yn y cyfnod heriol hwn. Buddsoddiad dan arweiniad y sector cyhoeddus oedd hwn, yn addas at y dyfodol, ac yn fwy penodol, yn addas i Gasnewydd. Byddai'r buddsoddiad yn ysbrydoli trigolion Casnewydd a byddai'n ddeniadol i ymwelwyr. Yr oedd y Prif Weithredwr yn croesawu barn a chanlyniad yr ymgynghori cyhoeddus, a byddai'n gwrando ac yn ymgorffori'r farn hon.

Nododd yr Arweinydd rai pwyntiau a wnaeth y Cabinet o safbwynt personol gydag atgofion cadarnhaol o ddefnyddio Canolfan Casnewydd. Yr oedd hefyd yn ateb dyheadau polisi Llywodraeth Cymru, yn ddatblygiad cynaliadwy, a byddai'r cynllun yn cael effaith ar les a chynhwysiant. Gofynnodd yr Arweinydd i ddinasyddion Casnewydd ystyried potensial y datblygiad, fod Casnewydd yn gyngor oedd yn gwrando, a'i bod hi yn bersonol yn edrych ymlaen at gael adborth y trigolion.

**Penderfyniad:**
Cytunodd y Cabinet i gychwyn ymgynghoriad â'r cyhoedd ar gynlluniau i godi cyfleuster hamdden a lles newydd yng nghanol y ddinas, gan ganiatáu rhyddhau tir i Goleg Gwent i gefnogi creu Chwarter Gwybodaeth Casnewydd.

## 14 Rhageln Waith

Hwn oedd adroddiad misol rheolaidd y Cabinet am y rhaglen waith. Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet dderbyn y rhaglen a gyfoeswyd.

**Penderfyniad:**
Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen a gyfoeswyd.

15 **Rhaglen Waith**

**Ystyried a ddylid eithrio'r wasg a'r cyhoedd wrth ystyried yr eitem a ganlyn ar y sail fod ei ystyried yn golygu posibilrwydd datgelu gwybodaeth a eithriwyd fel y'i diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 a bod yr eithriad yn gorbwyso datgeliad budd y cyhoedd.**

16 **Trefniadau Pensiwn Trafnidiaeth Casnewydd Cyfyngedig**

*Datganodd y Cynghorydd Harvey ddiddordeb, a gadael y cyfarfod ar y pwynt hwn.*

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet yn amlinellu manylion am drefniadau pensiwn Trafnidiaeth Casnewydd Cyfyngedig.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet a nodi'r materion allweddol a chytuno i'r cynigion yn yr adroddiad.